

HORIZON MASNACHOL



Cyfarfod Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd Ddydd Iau, 25 Mai 2017 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian, yn swyddfa safle Wylfa Newydd.

Yn Bresennol (sefydliadau yn nhrefn yr wyddor):

Enw	Sefydliad
Dennis Evans	Cadeirydd
Gwilym Williams	Clough & Co
Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid/ Pwynt Cyswllt Unigol yr Adeilad Niwclear Newydd
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion
Wyn Thomas	Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu Grŵp Llandrillo Menai
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Elin Pritchard	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Tony Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Brian Owen	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Bro Aberffraw
Richard Dew	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Llifon
Gwilym O Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Llifon
Ieuan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Lligwy
John Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Talybolion
Kenneth P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Talybolion
Aled Morris Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Twrcelyn
Richard Griffiths	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Twrcelyn
Manon Francis	Cyngor Sir Ynys Môn/Rhaglen Ynys Ynni
Myrddin Owens	Cyngor Tref Amlwch
Dr Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Peter Day	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Don White	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ann Kennedy	Maer Cyngor Tref Caerdybi
Medwyn Williams	Magnox Cyf
Eurwyn Aled Hughes	Ysgol Uwchradd Bodedern

Ymddiheuriadau:

Enw	Mudiadau
Siân Gwenllian AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Arfon
Janet Finch Saunders AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Conwy
Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC	Aelod Cynulliad Cenedlaethol Cymru Dwyfor Meirionnydd
Michael Dodds	Aelod o'r Cyhoedd
John Cadwaladr Jones	Aelod o'r Cyhoedd

HORIZON MASNACHOL



Mel O'Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Hywel Williams AS	Aelod Seneddol Arfon
Jackie Blackwell	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn – Aelod dros Ward Talybolion (Arweinydd)
Peter Day	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Phil Scott	Partneriaeth Twristiaeth Ynys Môn
John Idris Jones	Parth Menter Eryri
Dylan Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd
Dr Gwynne Jones	Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi'i gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu ag yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com ac edrychwch ar www.horizonnuclearpower.com/hafan

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar www.wylfaplq.com/cymraeg

1. Croeso, cofnodion cyfarfod Mawrth 2017 a materion yn codi - Dennis Evans, Cadeirydd

- Croesawodd Dennis Evans (**DE**) bawb i'r cyfarfod am 6:30pm a chyflwynodd yr unigolion a fyddai'n rhoi cyflwyniadau. Cafwyd munud o dawelwch yn dilyn y digwyddiadau ym Manceinion ddydd Llun 22 Mai.
- Cafodd Wyn Thomas (**WT**) ei longyfarch gan **DE** am iddo gael ei ailethol yn Is-gadeirydd Grŵp Cyswllt y Prosiect a diolchodd **DE** i Tom Conway (**TC**) am sefyll hefyd. Cafodd y cynghorwyr a oedd wedi cael eu hailethol a'u hethol eu newydd eu croesawu a'u llongyfarch gan **DE** hefyd.
- Adolygydd cofnodion cyfarfod 9 Mawrth 2017. Nododd **DE** y byddai'r drafodaeth ar dudalen naw cofnodion mis Mawrth ynghylch tai yn Amlwch yn cael sylw eto yn y cyfarfod hwn.
- Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddynt wedi'u cynnwys eisoes yn agenda'r cyfarfod.
- Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar 9 Mawrth 2017.

2. Cyflwyniad a'r cynnydd diweddaraf ar Wylfa Newydd – Sasha Davies, Pennaeth Datblygu Strategol Cymru; Roger Parkinson, Pennaeth Datblygu Prosiect.

- Croesawodd Sasha Davies (**SD**) bawb i'r cyfarfod ac ymddiheurodd fod y cyfarfod wedi dechrau'n hwyrach na'r arfer ac am yr archwiliadau diogelwch ychwanegol.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Rhoddodd **SD** yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a oedd wedi cael ei wneud dros yr wythnosau diwethaf ers cyfarfod mis Mawrth 2017. Dywedodd **SD** fod Horizon wedi bod yn canolbwyntio ar gyflawni trydydd cam yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, PAC3. Roedd hyn wedi arwain at fwy o sylw yn y cyfryngau lleol ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Horizon cyn lansio'r ymgynghoriad, a oedd wedi agor ddydd Mercher 24 Mai a daw i ben ddydd lau 22 Mehefin. Tynnodd **SD** sylw at sawl darn pwysig o sylw, gan gynnwys cyfweiliad ar Môn FM, cylchlythyr ar gyfer yr holl ynys a gweithgarwch ar Twitter.
- Eglurodd **SD** fod cynllun rhoddion elusennol Horizon yn dal i gefnogi grwpiau a mudiadau ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae £80,000 wedi cael ei roi yng Ngogledd Cymru ac i 29 o fudiadau ar Ynys Môn yn unig. Yn ddiweddar, roedd Hawks Ynys Môn wedi cael cyllid i brynu offer newydd ac mae arian wedi cael ei ddarparu ar gyfer Parc Chwaraeon Trefol newydd yn Llangefni gyda 14 o fudiadau eraill hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae cyflwyno cais ar gael ar wefan Horizon.
- Cadarnhaodd **SD** hefyd fod Horizon yn un o brif noddwyr yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhelir ym Modedern fis Awst yma. Bydd Horizon yn y prif bafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a bydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) yn yr ysgol drwy raglen addysg 'Dyfodol' Horizon.
- Dywedodd **SD** y bydd Horizon mewn digwyddiadau yn y gymuned leol cyn yr Eisteddfod, ochr yn ochr â'r digwyddiadau ymgynghori ym mis Mai a mis Mehefin. Yn benodol, bydd Horizon yn Niwrnod Teulu RAF y Fali ddydd lau 1 Mehefin sy'n ddiwrnod poblogaidd iawn, a bydd yn cynnal yr ail Wythnos Cypolwg ar Waith ym mis Gorffennaf ar gyfer disgyblion sydd eisiau dysgu rhagor am Wylfa Newydd. Mae Greg Evans, Delyth Owen a Richard Foxhall i gyd wedi bod yn amlwg yn lleol a byddan nhw'n parhau i fod yma a thraw yn cwrdd â phobl dros fisoedd yr haf.
- Eglurodd **SD** er bod dull gweithredu Horizon ar gyfer datblygu sgiliau'n dal yn cael ei ystyried a'i fireinio, eu bod yn falch y bydd 12 prentis arall yn ymuno â Phrosiect Wylfa Newydd ym mis Medi eleni. Mae hyn fymryn yn uwch na'r 10 prentis a ymunodd yn 2016 ac mae'n brawf o ymrwymiad y cwmni i fuddsoddi mewn doniau i'r dyfodol a'u meithrin. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu drwy Grŵp Llandrillo Menai yn ystod o gyfleusterau'r coleg ym Mangor i ddechrau cyn symud i'r Ganolfan Peirianeg a Thechnoleg.
- Dywedodd **SD** y bydd y 10 prentis presennol hefyd yn teithio i Japan ym mis Mehefin i ddysgu rhagor am Hitachi a chwrdd â phrentisiaid Hitachi. Byddan nhw hefyd yn ymweld â Hitachi City a deall sut mae rhiant fusnes Horizon yn gweithio. Maen nhw i gyd yn edrych ymlaen yn arw.
- Dywedodd **SD** fod gweithgarwch ar y safle yn mynd rhagddo'n dda. Ym mis Mehefin bydd y cam nesaf o'r gwaith archaeoleg yn dechrau a fydd yn cynnwys rhywfaint o ymgysylltu cymunedol yn ogystal â chylchlythyr yn rhoi gwybod i bobl am y gwaith. Mae'r tîm hefyd yn

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru ar bibell ymgodol Cemaes, a bydd y gwaith yn dechrau'n gynnar iawn yn ystod yr haf. Dywedodd **SD** fod gwaith arolygu yn dal yn mynd rhagddo gyda gwaith monitro sŵn mewn lle ym Mharc Cybi, safle'r darpar ganolfan logisteg.

- Cyflwynodd **SD** Roger Parkinson (**RP**) Pennaeth Datblygu Prosiect Horizon i'w gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect cyntaf.
- Cyflwynodd **RP** ei hun ac eglurodd ei rôl yn Horizon. Dywedodd fod ganddo dros 30 mlynedd o brofiad gyda phrosiectau mawr, gan gynnwys profiad diweddar o Hinkley Point C. Ymunodd â Horizon tua chwe mis yn ôl a'i nod cyntaf oedd gweithio gyda'r tîm i adolygu'r adborth o PAC1 a PAC2 ac adolygodd y cynigion ar gyfer Wylfa Newydd.
- Eglurodd **RP** mai'r man cychwyn ar gyfer yr adolygiad oedd chwe chwestiwn allweddol a oedd wedi cael eu dylunio i sicrhau bod y Prosiect yn darparu gwerth a hyder i gymunedau lleol, i ddefnyddwyr yn y DU, i'r Llywodraeth ac i fuddsoddwyr. Eglurodd fod Wylfa Newydd yn wahanol i Hinkley Point C oherwydd na fydd yn cael ei adeiladu gyda dim ond buddsoddiad mantolen, ond drwy gyllid prosiect o'r sector preifat. Eglurodd fod y chwe chwestiwn yn allweddol er mwyn deall sut orau mae cyflawni Prosiect sy'n gweithio i bawb ac sy'n cyd-fynd â'r amserlenni roedd Horizon yn eu dilyn – gan gynnwys cyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn yr haf. Mae cerrig milltir allweddol eraill yn cynnwys penderfyniad buddsoddi terfynol yn 2019, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth y DU i adeiladu Wylfa Newydd, a dechrau gweithredu yn 2025.
- Dywedodd **RP** fod yr adolygiad wedi helpu i siapia rhai newidiadau pwysig i'r Prosiect, gan ddechrau gydag ôl-troed y safle ei hun. Eglurodd fod y dyluniad gwreiddiol yn hael o ran lle ac amserlen y gwaith adeiladu. Roedd y newidiadau'n adlewyrchu dymuniad Horizon i ddatblygu Wylfa Newydd mewn ffordd sy'n helpu i fireinio amserlenni adeiladu a bod o fudd i'r gymuned ehangach. Eglurodd **RP** nad ydy'r newidiadau'n newid y gofynion o ran y dechnoleg, peirianeg na diogelwch neu ddiogelwch eiddo ar gyfer y safle ac nid ydyn nhw'n newid y broses Asesiad Dyluniad Generig (GDA) sy'n cael ei harwain drwy Hitachi-GE. Nid ydy'r ymrwymadau hynny wedi newid ac mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ystod blynyddoedd cynnar y Prosiect i fynd i'r afael â'r heriau adeiladu yn dal yn berthnasol, er bod y newidiadau i'r ôl-troed yn sylweddol, mae natur y Prosiect yr un fath.
- Eglurodd **RP** fod y newidiadau'n caniatáu i Horizon fireinio nifer y gweithwyr ar gyfer y safle yn ogystal â'r amserlennu. Dywedodd fod safle ag ôl-troed llai yn cael effaith ar adeiladu. O ganlyniad, mae nifer y gweithwyr sydd eu hangen i adeiladu Wylfa Newydd wedi newid o 10,720 i 9,000.
- Dywedodd **RP** hefyd fod yr adolygiad wedi hoelio sylw Horizon ar ddarparu llety ar gyfer hyd at 4,000 o weithwyr ar y safle mewn campws newydd. Roedd y ffigur hwnnw wedi bod yn 500 yn ystod yr ail gam o ymgynghori cyn ymgeisio yn 2016. Eglurodd nad ydy'r union niferoedd yn absoliwt, ond bydd y campws yn cael ei adeiladu fesul cam gan ddibynnu ar y galw yn unol

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



â'r broses adeiladu. Byddai'r adeiladau dwyreiniol yn cael eu hadeiladu'n gyntaf gyda'r adeiladau gorllewinol yn cael eu hadeiladu yn ôl y galw, bydd canolfan cyfleusterau hamdden yn cael ei darparu ar y safle ynghyd â bysiau gwennol i gludo'r gweithwyr.

- Eglurodd **RP** mai dros dro fyddai campws y safle, ac y byddai'r tir yn cael ei ddychwelyd i natur pan fyddai'r cyfleusterau'n cael eu cludo i ffwrdd a byddai nodweddion naturiol – brigiadau creigiog, er enghraifft – yn cael eu cadw. Eglurodd y byddai gwaith tirweddu i'r dwyrain o'r campws rhwng yr adeiladau a Chemaes, er mwyn sgrinio'r adeiladau. Byddai hyn yn lleihau'r effaith weledol a'r effeithiau o ran sŵn a golau, ond mae hefyd yn caniatáu i Horizon gadw deunyddiau ar y safle. Byddai'r brif olygfa o'r campws i'r gogledd o Gemaes.
- Eglurodd **RP** na fyddai angen campws y safle tan 2020, gyda'r adeiladau'n cael eu cyflwyno a'u symud i ffwrdd dros y pum mlynedd hyd at 2025. Eglurodd **RP** y byddai cyfnod prysuraf y gwaith adeiladu yn 2023.
- Eglurodd **RP** fod y cynllun parcio a theithio wedi cael ei addasu yn unol â'r newidiadau i'r Prosiect. Roedd Horizon wedi edrych ar sut gallai'r Prosiect leihau'r symudiadau rhwng y safle a datblygiadau cysylltiedig oddi ar y safle. Eglurodd fod campws y safle yn helpu i leihau symudiadau gweithwyr. Byddai Cynllun Rheoli Safle wedi'i ddiweddarau hefyd yn cael ei ddatblygu cyn datblygu'r campws. Eglurodd **RP** fod rheoli gweithwyr yn flaenoriaeth ac roedd yn cydnabod bod pryderon lleol yn bodoli. Dywedodd fod cynlluniau modern yn canolbwyntio ar reoli llym ac ar amharu cyn lleied â phosibl yn lleol ac ar leihau pryderon lleol yn ogystal â sicrhau bod gweithwyr yn gallu cael gafael ar gyfleusterau lles a chefnogaeth ar y safle yn hytrach nag yn y gymuned. Dywedodd hefyd y byddai gweithwyr lleol y byddai arnyn nhw eisiau defnyddio cyfleusterau lleol – fel siopau – yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi.
- Dywedodd **RP** fod y cynllun teithio hefyd yn cyfri am rai newidiadau i Dalar Hir a Pharc Cybi, ond fod y cynllun cyffredinol ar gyfer logisteg a'r polisi teithio heb newid ers PAC2. Dywedodd **RP** fod y cynigion i uwchraddio'r A5025 yr un fath er mai'r cynnig erbyn hyn ydy y bydd y newidiadau i'r ffordd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu o dan Ddeddf Cynllunio Cymru. Bydd gwelliannau i'r ffordd yn rhan o gais Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, yn yr un modd â'r gwaith Paratoi a Chlirio'r Safle.
- Eglurodd **RP** fod Horizon hefyd rŵan yn cynnig bod y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol i gyd ar un safle. Roedd hyn yn newid ers PAC2 pan gynigiwyd i'r Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen a'r Labordy Arolygon Amgylcheddol fod yng Nghewn Coch a'r Garej Offer Argyfwng Symudol fod yn Llanfaethlu. Y cynnig newydd yn PAC3 oedd i'r tri chyfleuster oddi ar y safle fod yn Llanfaethlu. Mae hyn yn fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer gweithredu Wylfa Newydd.
- Eglurodd **RP** fod y newidiadau craidd hyn yn caniatáu i Horizon ddatblygu Prosiect sy'n fwy deniadol yn economaidd ac yn gymdeithasol ond mae'r newidiadau'n ddigon arwyddocaol i'r

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



cwmni fod eisiau gofyn am safbwyntiau'r cyhoedd, er bod natur benodol PAC3 yn golygu bod cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod yn ddigon er mwyn ymgysylltu â chymunedau lleol.

- Dywedodd **RP** fod PAC3 yn bwysig gan y bydd yn caniatáu i Horizon ddeall safbwyntiau'r cyhoedd cyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Fodd bynnag, er bod y newidiadau hyn yn bwysig mae llawer o'r hyn a gyflwynwyd i'r cyhoedd yn PAC2 yn dal yr un fath.
- Dywedodd **RP** fod y gwaith uwchraddio i'r A5025 wedi aros yr un fath gyda rhai mân newidiadau. Roedd Cyffordd y Fali wedi cael ei symud i ffwrdd oddi wrth y parth perygl o lifogydd yn dilyn adborth a gwaith dadansoddi. Roedd Horizon hefyd yn edrych ar rywfaint o dir ychwanegol yn Llanfachraeth a Llanfaethlu fel byffer yn erbyn cynefinoedd lleol. Roedd y gwelliant yng Nghefn Coch wedi cael ei gulhau hefyd er mwyn osgoi cloddiau mewn ardaloedd o goetir hynafol. Dywedodd **RP** y byddai'r fynedfa i'r campws drwy'r fynedfa bresennol i'r safle.
- Dywedodd **RP** mai Dalar Hir ydy'r safle sy'n dal yn cael ei gynnig ar gyfer cyfleuster parcio a theithio, er y bydd nifer gwahanol o lefydd parcio yn unol â'r newid i'r cynllun trafndiaeth. Dywedodd hefyd fod y ganolfan logisteg arfaethedig ym Mharc Cybi yn dal yr un fath gydag ychydig yn fwy o lefydd parcio – i 100 – a thynnu uned warws. Byddai'r naill newid a'r llall yn helpu i wella llif y traffig yn ystod y cyfnod adeiladu a byddai'r ddau ddatblygiad yn cael cydsyniad o dan y broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, nid drwy'r awdurdod lleol.
- Dywedodd **RP** fod ymrwymiad Horizon i ymgysylltu tryloyw â'r gymuned a'r angen i sicrhau trwydded gymdeithasol er mwyn gweithredu – cefnogaeth gan y gymuned a chyrrff allweddol – hefyd yn hollbwysig. Roedd hyn yn golygu archwilio ac egluro manteision y Prosiect a sicrhau bod gweithredu Wylfa Newydd yn gymydog da a oedd yn diogelu ac yn gwella'r ardal leol.
- Ailadroddodd **RP** ymrwymadau ehangach Horizon hefyd. Dywedodd y byddai Horizon yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned i ddatblygu ei drwydded gymdeithasol i weithredu a chynnal ymrwymadau i'r Gymraeg, diwylliant a buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant lleol. Mae Horizon hefyd wedi ymrwymo i gyflogi Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant amser llawn. Byddai'r swyddog yn helpu i siapiau a rheoli dull gweithredu Horizon ar gyfer diogelu a hyrwyddo iaith a'i diwylliant yn y dyfodol.
- Croesawodd **RP SD** yn ei hôl i roi trosolwg o ddull gweithredu Horizon ar gyfer manteision i'r gymuned a sut gall pobl gymryd rhan yn PAC3.
- Eglurodd **SD** y dull gweithredu sy'n dod i'r fei o ran pecynnau manteision i'r gymuned. Yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn roedd tri maes o fanteision – cynhenid, statudol a gwirfoddol. Roedd manteision cynhenid yn gysylltiedig â'r prosiect ac roedd y rhain yn cynnwys addysg, creu swyddi yn ogystal â manteision economaidd. Byddai manteision statudol yn gysylltiedig â chytundebau ac amodau Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref a

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



roddir ar y Prosiect ac mae'r rhain yn debyg o gynnwys lliniaru yn erbyn effeithiau ar y gymuned. Yn olaf, bydd manteision cymunedol gwirfoddol yn cael eu hystyried ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

- Dywedodd **SD** fod nifer o gamau gweithredu mae Horizon yn eu cymryd yn y tymor byrrach sy'n bwysig iawn i'r Prosiect. Bydd Horizon yn cyflogi Cydlynnydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a fydd yn goruchwyllo dull gweithredu Horizon ar gyfer diogelu a hyrwyddo'r iaith. Mae manyleb y swydd wrthi'n cael ei datblygu a'i chytuno yn unol â bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Dywedodd **SD** hefyd fod Horizon yn bwriadu lansio gwasanaeth cyflogaeth a sgiliau a fydd yn caniatáu i bobl leol gael gafael ar gyfleoedd recriwtio gyda Wylfa Newydd wrth iddyn nhw gael eu creu. Bydd hyn hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a sgiliau sydd ar gael drwy sefydliadau partner. Mae Cyngor Sir Ynys Môn, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i gyd yn ymwneud â chreu'r gwasanaeth hwn.
- Dywedodd **SD** fod Horizon hefyd yn edrych ar gyllid ar gyfer darpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy newydd yn y gymuned er mwyn rhoi hwb i'r stoc dai leol a'i hansawdd yng ngogledd Ynys Môn. Mae'r cwmni hefyd yn edrych ar bosibilrwydd cronfa dwristiaeth newydd i liniaru yn erbyn yr effeithiau a fydd yn codi yn ystod y cyfnod adeiladu.
- Roedd **SD** yn annog aelodau Grŵp Cyswllt y Prosiect i gymryd rhan yn PAC3 ac annog ffrindiau, teulu a'r bobl maen nhw'n eu cynrychioli i gymryd rhan. Dywedodd **SD** y bydd Horizon yn fwy gweladwy nag erioed o'r blaen, gyda bws ymgynghori newydd yn mynd yn syth i ddigwyddiadau cymunedol a llefydd poblogaidd er mwyn casglu safbwyntiau a barn y cyhoedd. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 22 Mehefin ac os na allwch chi fod yn un o'r digwyddiadau, roedd **SD** yn annog pobl i fynd i wefan ymgynghori Horizon.
- Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, dywedodd **SD** y bydd Horizon yn adolygu'r adborth ac yn asesu'r ymatebion manwl. Gyda'r broses honno'n mynd rhagddi, bydd dau ymgynghoriad Deddf Cynllunio Gwlad a Thref arall yn cael eu lansio ynghylch Paratoi a Chlirio'r Safle a'r gwelliannau i'r A5025. Bydd Horizon yn darparu rhagor o wybodaeth dros yr wythnosau nesaf.
- Agorodd **DE** y llawr am sylwadau a chwestiynau.

Cwestiynau a sylwadau:

- Dywedodd y Cynghorydd Richard Griffiths (**RG**) fod pryder am y llwybr ar hyd yr A5025 o Borthaethwy i'r safle. Roedd hyn yn bryder i'r trigolion lleol ac i'r Cyngor. Beth oedd cynllun Horizon ar gyfer y ffordd?
 - Roedd **RP** yn cydnabod bod hwn yn fater yn lleol a'i fod yn rhannu'r un pryderon. Mae trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gyda'r awdurdod lleol ac yn fewnol yn Horizon yn awgrymu efallai fod rhywbeth y gall Horizon ei wneud, ond nid ydy'r gwaith modelu traffig sydd wedi cael ei wneud hyd yma'n tynnu sylw at faterion penodol

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



gyda'r ffordd. Dywedodd **RP** fod capasiti'r ffordd yn gweithredu'n dda o fewn terfynau hyd yn oed gyda chynnydd o ganlyniad i'r adeiladu a'r gweithredu, felly'r ystyriaeth i Horizon ydy pa gamau mae angen eu cymryd. Gallai gymryd 12 mis arall i asesu'r broses hon.

- Diolchodd y Cynghorydd Bryan Owen (**BO**) i Horizon am y cyflwyniad. Dywedodd fod y gymuned leol wedi gofyn i Horizon edrych ar wella'r ffordd rhwng Amlwch a'r safle ers pedair blynedd wrth ystyried y cynnydd mewn traffig o ganlyniad i'r Prosiect, pam fyddai hyn yn cymryd blwyddyn arall?
 - Roedd **RP** yn cydnabod y cwestiwn a'r rhwystredigaeth. Dywedodd nad oedd y gwaith modelu hyd yma wedi dod o hyd i unrhyw faterion clir gyda'r llwybr hwn sy'n ei gwneud hi'n anodd llunio camau gweithredu. Byddai ychydig o draffig yn defnyddio'r llwybr, ond mae'r gwaith modelu yn dangos y byddai hyn o fewn capasiti. O ganlyniad, mae'r gwelliannau o bosibl yn wrthrychol, felly mae angen i Horizon dreulio amser yn edrych ar y gwelliannau penodol y gallai fod eu hangen i wella diogelwch a lleihau'r posibilrwydd o ddamweiniau neu broblemau ar hyd y ffordd. Mae penderfynu ar y dull gweithredu iawn yn cymryd amser, ond mae Horizon yn edrych ar yr achos dros welliannau.
- Holodd y Cynghorydd Richard Jones (**RJ**) beth oedd y ddarpariaeth ar gyfer tai yn Amlwch.
 - Dywedodd **RP** fod Horizon yn cynnal trafodaethau gyda'r Cyngor i weld beth all y cwmni ei wneud i wella stoc dai y dref. Mae ar Horizon eisiau datblygu rhywbeth sy'n addas ar gyfer pobl leol ac ar gyfer gweithlu'r dyfodol.
- Dywedodd Tom Conway (**TC**) fod diogelwch ar y ffyrdd yn bwysig wrth ystyried diogelwch cerddwyr. A fyddai Horizon yn talu am sythu'r ffordd rhwng Amlwch a Chemaes?
 - Dywedodd **RP** y gallai Horizon o bosibl ddarparu rhywfaint o gyllid ar gyfer y ffordd, ond na fyddai'n rhan o gytundeb Adran 106 nac yn amodol ar safle Wylfa Newydd.
- Dywedodd **DE** fod pobl wedi sôn am y ffordd yn gyson ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd ei bod hi'n briodol fod y cwmni yn ystyried hyn yn iawn.
 - Cytunodd **RP** a dywedodd fod Horizon yn cydnabod y pwynt hwn. Dywedodd ei bod hi'n hollbwysig fod Horizon yn cefnogi'r gymuned ac mae'n gweithio gyda'r Cyngor ar hyn.
- Dywedodd **TC** mai dyma'r tro cyntaf iddo glywed sôn am dai fforddiadwy. Gofynnodd sut byddai pobl yn cael llety yn y cartrefi hyn a sut bydden nhw'n edrych.
 - Dywedodd **RP** fod y llety ar y safle yn caniatáu i Horizon ddarparu cyllid ar gyfer atebion tai amgen mewn mannau eraill ar yr ynys. Dywedodd efallai y byddai ar deuluoedd eisiau symud i'r ynys ac efallai na fyddai Campws y Safle yn ateb addas iddyn nhw. Byddai tai oddi ar y safle yn rhoi mwy o le i deuluoedd ar yr un pryd â rhoi'r cyfle i'r awdurdod lleol gynyddu'r stoc dai ar ôl y cyfnod adeiladu. Bydd union fanylebau a dyluniadau'r tai hyn yn cael eu trafod â Chyngor Sir Ynys Môn.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



- Dywedodd **TC** ar gyfer pob gorsaf bŵer niwclear yn y gorffennol y bu'n rhaid i'r datblygwr dalu am dai yn agos at y safle.
- Holodd Sarah Andrews (**SA**) beth fydd yn digwydd i wasanaethau iechyd yn ystod y cyfnod adeiladu.
 - Dywedodd **RP** fod Horizon wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd â Bwrdd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd annibynnol sydd wedi bod yn siapio dull gweithredu Horizon ar gyfer rheoli'r effeithiau ar y gwasanaeth iechyd yn lleol. Ar hyn o bryd mae Horizon wedi bod yn datblygu tystiolaeth ac ystadegau i asesu'r effeithiau posibl mae angen mynd i'r afael â nhw. Bydd y broses hon yn cyfrannu at Ddatganiad Tir Cyffredin lle mae'r gwasanaeth iechyd lleol a darparwyr iechyd yn cytuno ar y prif faterion a sut bydd Horizon yn eu rheoli. Bydd unrhyw fesurau lliniaru wedyn yn cael eu trosi yn amodau a fydd yn cael eu siapio drwy'r cytundeb Adran 106. Dywedodd **RP** ei bod hi'n cymryd amser i gytuno ar egwyddorion.
- Cafodd **RP** ei groesawu i Grŵp Cyswllt y Prosiect gan y Cynghorydd Aled Morris Jones (**AMJ**). Dywedodd fod yr A5025 rhwng Cemaes ac Amlwch wedi cael ei godi bedair blynedd yn ôl mewn cyfarfod i gytuno ar gynnal gwaith ar hyd y llwybr. Dywedodd y byddai pobl yn defnyddio'r ffordd yn ystod y cyfnod adeiladu ac y byddai effaith ar y llwybr, felly dylai Horizon ymrwymo i'r prosiect ffordd er mwyn diogelu'r gymuned.
 - Roedd **RP** yn cydnabod y sylw ac yn cytuno bod y ffordd yn faes roedd Horizon yn canolbwyntio arno.
- Dywedodd y Cynghorydd Elin Pritchard (**EP**) fod effeithiau'r Prosiect yn sylweddol i'r gymuned leol. Dywedodd ei bod hi'n bwysig bod Horizon yn sicrhau bod y Prosiect yn diogelu'r gymuned ac yn asesu'r effeithiau sy'n ymwneud â'r orsaf arfaethedig yn iawn.
 - Cytunodd **RP** fod y Prosiect yn brosiect adeiladu mawr. Dywedodd fod amrywiaeth o grwpiau ffocws mae Horizon yn gweithio gyda nhw i ddeall yr effeithiau a'r mesurau lliniaru sydd eu hangen i ddiogelu'r gymuned a gwasanaethau cymunedol. Dywedodd y bydd yr Arolygydd yn codi ystod eang o faterion yn ystod y broses archwilio sydd wedi cael ei dylunio i brofi cadernid y penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud gan Horizon. Roedd angen i Horizon fod yn barod i ateb y cwestiynau hyn ac mae rhai o'r materion hyn eisoes yn cael eu codi yng Ngrŵp Cyswllt y Prosiect. Dywedodd er bod gwaith eto i'w wneud, bod Horizon ar y trywydd iawn.
- Dywedodd y Cynghorydd Gwilym O Jones (**GOJ**) ei fod yn falch o weld buddsoddiad mewn addysg a hyfforddiant. Dywedodd ei fod wedi gweld bod cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu ar gyfer ysgolion uwchradd, ond a allai ofyn i Horizon fuddsoddi mewn ysgolion cynradd hefyd.
 - Dywedodd **SD** fod Horizon eisoes yn ymgysylltu ag ysgolion cynradd ar draws yr ynys ac ar y tir mawr i hyrwyddo pynciau STEM drwy'r rhaglen Dyfodol. Dywedodd fod Horizon yn awyddus i wneud mwy i helpu'r ysgolion hyn ac roedd yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i ddeall beth arall roedd modd ei wneud. Roedd yn cydnabod bod dysgu am wyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg yn dechrau'n gynnar.

HORIZON MASNACHOL

3. Trosolwg o'r UK ABWR – Datblygu, dylunio, adeiladu a gweithredu: Dave Watson, Uwch Gyngorydd Rheoleiddio, Hitachi-GE

- Cyflwynodd **DE** Dave Watson (**DW**) o Hitachi-GE i siarad am yr UK ABWR, y dechnoleg sy'n cael ei chynnig ar gyfer Wylfa Newydd.
- Diolchodd **DW** i'r aelodau ac eglurodd ei fod am drafod hanes a datblygiad yr UK ABWR. Dywedodd fod ganddo 35 mlynedd o brofiad yn y sector a'i fod yn ymwneud â'r broses Asesiad Dyluniad Generig (GDA) a oedd yn asesu technoleg UK ABWR i'w defnyddio yn y DU.
- Eglurodd **DW** fod UK ABWR yn deillio o dechnoleg Adweithydd Dŵr Berwedig (BWR) a gyflwynwyd yn Japan. Mae'r dechnoleg wedi parhau i gael ei hadeiladu ers y 1970au gyda gwelliannau parhaus i'r dyluniad sydd wedi arwain at ddatblygu'r Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch – yr ABWR. Mae'r UK ABWR yn mireinio'r dechnoleg ymhellach gan ymgorffori'r broses GDA yn ogystal ag Adroddiad Weightman a ddatblygwyd yn dilyn trychineb Fukushima yn 2011.
- Dywedodd **DW** fod pedwar ABWR ar waith a bod pedwar arall wrthi'n cael eu datblygu a'u hadeiladu, ac mae dau bron â gorffen. Eglurodd fod yr ABWR wedi symleiddio systemau a'u bod yn fwy dibynadwy, a bod yr UK ABWR yn mireinio'r prosesau hyn ymhellach. Dywedodd fod gan y cwmni lawer o brofiad o ddarparu ABWRs.
- Eglurodd **DW** fod pob BWR yn defnyddio cylch uniongyrchol. Mae hyn yn wahanol i Adweithyddion Dŵr Gwasgeddedig (PWR) sy'n defnyddio cylch sylfaenol ac eilaidd sy'n fwy cymhleth. Mae'r cwbl yn ddiogel, ond mae adweithydd ABWR yn symlach.
- Dywedodd **DW** fod y prif addasiadau i'r BWR yn canolbwyntio ar wella dibynadwyedd a chynnal a chadw yn ogystal â diogelwch. Mae'r dyluniad craidd hyblyg yn caniatáu iddo fod yn fwy economaidd a gweithredu'n well gan arwain at fwy o ddibynadwyedd a chynnal a chadw.
- Rhoddodd **DW** drosolwg o gydrannau a strwythur yr adweithydd. Nododd mai creu cydrannau mwy fel y cynhwysydd gwasgedd ydy'r dull adeiladu sy'n cael ei ffafrio gan fod hynny'n golygu nad oes angen weldio. Dywedodd er bod y dechnoleg graidd wedi aros yr un fath, mai'r gwahaniaeth mawr ydy'r ystafell rheoli lle mae'r dyluniad wedi esblygu dros oes yr orsaf. Mae dyluniad y tyrbîn hefyd wedi aros yn debyg, a'r prif newid oedd y gwelliannau i'r effeithlonrwydd thermol.
- Eglurodd **DW** fod systemau diogelwch yn cyd-fynd â systemau a safonau modern. Bydd yr UK ABWR yn gweithredu gyda dull gweithredu amddiffyn manwl lle ceir nifer o systemau diogelwch ac wrth gefn. Bydd y systemau diogelwch yn cael eu hadolygu drwy'r broses GDA i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau modern. Dywedodd **DW** fod y GDA yn system drwyadl ac yn asesu'r materion iawn yn hollol briodol.

HORIZON MASNACHOL



- Dywedodd **DW** fod trychineb Fukushima wedi dylanwadu ar UK ABWR ac mae'r gwersi a ddysgwyd yma a drwy'r broses GDA wedi cyfrannu at ddefnyddio a dylunio'r ABWR. Dyma'r prif newidiadau:
 - Drychiad safle uwch
 - Diogelwch gwell rhag daeargrynfeydd, gan gynnwys adeiladau sydd wedi cael eu mesur yn seismig
 - Diogelwch y cyfleusterau craidd ac adeiladau a drysau sy'n dal dŵr o amgylch y nodweddion wrth gefn.
 - Mae colli cyflenwadau trydan wedi cael ei wella.
- Dywedodd **DW** fod y broses GDA yn symud ymlaen yn dda eleni, gyda chymeradwyaeth ar y trywydd iawn ar gyfer eleni. Mae'n archwilio diogelwch, diogelwch amgylcheddol a diogelwch eiddo ac mae'n cymryd amser hir gyda deialog cyson gyda'r rheoleiddwyr a chyflwynir cannoedd ar gannoedd o ddogfennau. Tynnodd sylw at yr EPR a gymerodd bum mlynedd i'w gymeradwyo a'r AP1000 a gymerodd 10 mlynedd, gyda bwlch yn y broses.
- Dywedodd **DW** fod y broses wedi cael ei dylunio i fod yn dryloyw, ac mae ymatebion i gwestiynau rheoleiddio yn cael eu postio ar y wefan. Gofynnwyd am newidiadau i'r dyluniad ac mae'r rhain wedi cael eu gwneud, ac mae rhai newidiadau'n cael eu hymgorffori'n fyd-eang. Yn yr un modd, codwyd dau fater rheoleiddio ac mae'r rhain wedi cael eu datrys. Disgwylir y bydd y broses GDA yn cael ei chwblhau ar ddiwedd y flwyddyn.
- Dywedodd **DW** fod y broses i gyflwyno sylwadau ar gyfer y GDA yn fyw tan 15 Awst eleni yn www.hitachi-hgnc-abwr.co.uk. Roedd yn annog aelodau Grŵp Cyswllt y Prosiect i edrych ar y wefan.
- Diolchodd **DE** i **DW** am y cyflwyniad a nododd y bu rhai cwestiynau'n gynharach yn ystod y flwyddyn yn un o ddogfenniadau ymgynghori'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y cyfraddau gollwng. Roedd yn credu bod y rhain yn dod o dan y broses GDA. Dywedodd y bu rhai cwestiynau hefyd ynghylch integriti cysylltiad y National Grid ac asesiadau rheoli ar gyfer yr orsaf bŵer.
 - Roedd **DW** yn cydnabod bod cwestiynau wedi cael eu codi ynghylch y rhwydwaith trawsyrru. Eglurodd fod y broses GDA yn tybio amlen safle generig ar gyfer integriti'r cysylltiad sy'n berthnasol i amrywiaeth o ffactorau. Daw'r ffactorau sy'n cael eu tybio gan y trwyddedai ac maen nhw'n geidwadol iawn, gan ystyried nifer o faterion posibl a all godi er mwyn profi'r cysylltiad. Ar ôl i'r broses GDA ddod i ben, y trwyddedai – Horizon – fydd yn gyfrifol wedyn am edrych ar yr amodau a phrofi a ydy amlen y safle'n berthnasol yn Wylfa.
 - Roedd **DW** hefyd yn cydnabod cwestiynau am y lefelau a'r terfynau gollwng. Eglurodd fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu fel Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru yn darparu cyfarwyddyd ar derfynau cyfreithlon ar gyfer lefelau gollwng, sy'n isel iawn – ac yn is o lawer ar gyfer y genhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer.

HORIZON MASNACHOL

HORIZON MASNACHOL



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mesur y lefelau tebygol ac ni fydd yn rhoi caniatâd os bydd y dosiau yn uwch na'r lefelau y cytunir arnyn nhw.

- Dywedodd Iwan Williams (**IW**) o Gyfoeth Naturiol Cymru y bydd trwydded cais ar gyfer y safle'n cael ei datblygu gan Horizon eleni ac y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid a chymunedau yn 2018. Dywedodd y bydd angen i drigolion Cemaes yn benodol ddeall y cais a'r hyn mae'n ei olygu a theimlo'n gyfforddus â hynny.
- Holodd y Cynghorydd Ken Hughes (**KH**) ynghylch y systemau TG ar gyfer yr orsaf bŵer newydd – a oes modd eu hacio?
 - Eglurodd **DW** fod y broses GDA yn ystyried diogelwch, gan gynnwys ymosodiadau seiber. Dywedodd fod gan y systemau cyfrifiaduron system ddiogelu ac er bod rhywfaint o gysylltiad rhwng systemau ABWR ar draws y byd, y bydd y systemau rheoli yn Wylfa Newydd yn cael eu hynysu oddi wrth y rhyngwyd. Mae system ceblau ffisegol ar waith hefyd, sy'n golygu eu bod wedi'u hynysu oddi wrth ymyrraeth allanol.
- Dywedodd **AMJ** y dylai'r ardal leol gael cysur o'r broses GDA. Dywedodd ei fod yn teimlo y dylai'r Heddlu Niwclear Sifil reoli diogelwch yr orsaf, nid cwmni preifat.
 - Dywedodd Trevor Howes (**TH**) o'r Heddlu Niwclear Sifil y byddai'r Heddlu Niwclear Sifil yn dal i ddarparu diogelwch i Wylfa Newydd, gyda chwmni diogelwch preifat yn rheoli rhai swyddogaethau ar y safle, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Holodd **RG** a fyddai'r cynigion fel yr oeddent wedi'u hamlinellu yn y cyfarfod ac yn nogfennau PAC3 yn golygu peilonau ar draws yr ynys. Beth ydy'r achos diogelwch dros y peilonau hynny?
 - Dywedodd **DE** fod y National Grid yn gyfrifol am gysylltu â'r rhwydwaith trydan a bod yr achos diogelwch wedi cael ei godi mewn cyfarfodydd blaenorol. Y National Grid sy'n gyfrifol am hyn.

4. Cloi

- Diolchodd **DE** i bawb am ddod a daeth â'r cyfarfod i ben am 21:05.